Rhif: WG27713

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.llyw.cymru

Llywodraeth Cymru

Dogfen Ymgynghori

# Safonau Ansawdd Gorfodol ar gyfer cartrefi newydd, adferedig a chartrefi presennol

**Gweithredu safonau ansawdd gorfodol ar gyfer cartrefi newydd, adferedig a chartrefi presennol o dan Ran 4 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014 ac Adrannau 33A, 33B a 33C o Ddeddf Tai 1996**

Dyddiad cyhoeddi: 18 Ionawr 2016
Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn 12 Ebrill 2016

OGL © Hawlfraint y Goron

| | |
|---|---|
| **Trosolwg** | Nod yr ymgynghoriad hwn yw casglu barn ar y ddwy safon hon a'r canllawiau cysylltiedig. Mae Gweinidogion Cymru yn ymgynghori ar weithredu safonau ansawdd gorfodol ar gyfer tai newydd a thai presennol o dan Ddeddf Tai (Cymru) 2014 a Deddf Tai 1996. Os caiff y safonau eu cyflwyno, byddant yn berthnasol i'r 222,000 a mwy o dai cymdeithasol sydd eisoes yn bodoli yng Nghymru yn ogystal â thai cymdeithasol newydd ac adferedig a gaiff eu hadeiladu drwy gymhorthdal gan Lywodraeth Cymru.<br><br>Mae *dwy ran* i'r ddogfen ymgynghori hon ac mae'n cwmpasu dau faes gwahanol ond cysylltiedig:<br><br>**Rhan A:** Rydym yn cynnig safon orfodol ar gyfer gwella cartrefi sy'n bodoli eisoes. Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC), sydd eisoes yn bodoli, yw'r safon arfaethedig. Mae'n cynnwys canllawiau drafft sy'n adlewyrchu mân newidiadau i'r fersiwn bresennol.<br><br>**Rhan B:** Rydym yn cynnig safon orfodol ar gyfer dylunio ac adeiladu cartrefi newydd ac adferedig a gaiff eu hadeiladu drwy gymhorthdal gan Lywodraeth Cymru. Y Gofynion Ansawdd Datblygu (GAD) presennol yw'r safon arfaethedig, wedi'u diwygio i adlewyrchu argymhellion a wnaed i Weinidogion Cymru yn 2014 gan Grŵp Adolygu GAD. Mae canllawiau drafft diwygiedig hefyd ynghlwm. |
| **Sut i ymateb** | Gofynnwn ichi ymateb drwy gwblhau'r holiadur yng nghefn y ddogfen hon a'i anfon at<br>E-bost:<br>mailto:housingqualitystandards@wales.gsi.gov.ukhousingqualitystandards@wales.gsi.gov.uk.<br><br>Neu<br><br>Tîm Safonau Ansawdd Tai<br>Cartrefi a Lleoedd<br>Llywodraeth Cymru<br>Parc Busnes Rhydycar<br>Merthyr Tudful<br>CF48 1UZ |
| **Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig** | **Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.**<br><br>Ceir rhagor o fanylion am y Ddeddf ar wefan Llywodraeth Cymru:<br><br>www.wales.gov.uk/legislation/programme/assemblybills/housing/?lang=cy<br><br>www.wales.gov.uk/legislation/programme/assemblybills/housing/?lang=en |

Hefyd, mae gwybodaeth ychwanegol am y Ddeddf gan gynnwys gwelliannau a osodwyd gan y Llywodraeth ac aelodau eraill o'r Cynulliad drwy gydol y broses graffu, ar gael ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:

http://www.senedd.cynulliad.cymru/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=8220

| | |
|---|---|
| **Manylion Cysylltu** | I gael rhagor o wybodaeth:<br><br>Tîm Safonau Ansawdd Tai<br>Cartrefi a Lleoedd<br>Llywodraeth Cymru<br>Parc Busnes Rhydycar<br>Merthyr Tudful<br>CF48 1UZ<br><br>E-bost: housingqualitystandards@wales.gsi.gov.uk |
| **Diogelu Data** | Sut y byddwn yn defnyddio'r farn a'r wybodaeth a roddwch inni. |

Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â nhw. Mae'n bosibl y bydd aelodau eraill o staff Llywodraeth Cymru yn gweld yr ymateb hefyd, er mwyn eu helpu i gynllunio ymgyngoriadau ar gyfer y dyfodol.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Mae hynny'n helpu i ddangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, ticiwch y blwch isod. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion.

Mae'n bosibl y bydd yr enwau a'r cyfeiriadau y byddwn wedi'u cuddio yn cael eu cyhoeddi'n ddiweddarach, er nad yw hynny'n debygol o ddigwydd yn aml iawn. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn caniatáu i'r cyhoedd gael gweld gwybodaeth a gedwir gan lawer o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Mae hynny'n cynnwys gwybodaeth sydd heb ei chyhoeddi. Fodd bynnag, mae'r gyfraith hefyd yn caniatáu i ni gadw gwybodaeth yn ôl dan rai amgylchiadau. Os bydd unrhyw un yn gofyn am gael gweld gwybodaeth a gadwyd yn ôl gennym, bydd rhaid inni benderfynu a ydym am ei rhyddhau ai peidio. Os bydd rhywun wedi gofyn inni beidio â chyhoeddi ei enw a'i gyfeiriad, bydd hynny'n ffaith bwysig i ni ei chadw mewn cof. Fodd bynnag, fe allai fod rheswm pwysig dros orfod datgelu enw a chyfeiriad unigolyn, er ei fod wedi gofyn i

ni beidio â'u cyhoeddi. Byddem yn cysylltu â'r unigolyn ac yn gofyn am ei farn cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol i ddatgelu'r wybodaeth.

**Cynnwys**


| | |
|---|---|
| Crynodeb | tudalen 5 |
| Cyflwyniad | tudalen 5 |
| Y cefndir deddfwriaethol | tudalen 6 |
| Y cynnig ar gyfer newid | tudalen 6 |
| Ffurflen Ymateb | tudalen 7 |

## Crynodeb

- Mae Gweinidogion Cymru yn bwriadu gosod Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC) fel y safon orfodol ar gyfer yr holl dai cymdeithasol presennol a Gofynion Ansawdd Datblygu (GAD) diwygiedig fel y safon orfodol ar gyfer tai newydd ac adferedig sy'n cael eu hadeiladu gyda chymhorthdal gan Lywodraeth Cymru.

- Diben yr ymgynghoriad hwn yw ceisio barn ar y safonau gorfodol arfaethedig a'u canllawiau cysylltiedig.

- Mae dwy ran i'r ymgynghoriad:

  Rhan A: sy'n cynnig gweithredu Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC), sef y safon bresennol, fel y safon orfodol ar gyfer tai cymdeithasol sydd eisoes yn bodoli. Mae'n cynnwys canllawiau drafft.

  Rhan B: sy'n cynnig gweithredu Gofynion Ansawdd Datblygu (GAD) diwygiedig fel y safon orfodol ar gyfer tai cymdeithasol newydd ac adferedig sy'n cael eu hadeiladu drwy gymhorthdal gan y Llywodraeth. Mae'n cynnwys canllawiau drafft.

- Croesewir ymatebion yn ymwneud â'r naill ran o'r Ymgynghoriad neu'r llall, neu'r ddwy ran a rhaid iddynt ddod i law erbyn diwedd y dydd ar 12 Ebrill 2016 fan bellaf.

## Cyflwyniad

- Mae safonau ar gyfer tai â chymhorthdal yn bwysig gan eu bod yn anelu at sicrhau bod cartrefi'n gallu diwallu anghenion preswylwyr presennol a phreswylwyr y dyfodol. Mae angen hefyd i gartrefi fod yn hyblyg, yn addasadwy ac wedi'u dylunio'n dda er mwyn diwallu gofynion pobl a chymdeithas sy'n newid drwy gydol eu hoes, sef mwy na 60 mlynedd.

- Ar hyn o bryd mae Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i safonau tai gael eu bodloni os yw'n darparu cymhorthdal drwy arian cyhoeddus a chaiff y safonau eu gorfodi drwy ofynion cyllido, amodau grant a rheoleiddio er enghraifft. Mae'r safonau'n hyn yn ychwanegol at ofynion Rheoliadau Adeiladu a Deddfwriaeth cynllunio er enghraifft, ond nid ydynt yn orfodol.

- Rhaid i bob cartref cymdeithasol presennol gyrraedd Safon Ansawdd Tai Cymru erbyn 2020 ac ar hyn o bryd mae pob landlord ar y trywydd cywir i'w chyrraedd. Lle y rhoddir cymhorthdal ar gyfer cartrefi newydd ac adferedig, mae'n rhaid i landlordiaid cymdeithasol fodloni'r Gofynion Ansawdd Datblygu (GAD).

## Cefndir deddfwriaethol

- Cafodd Deddf Tai (Cymru) 2014 ei phasio gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ym mis Gorffennaf 2014 a chafodd Gydsyniad Brenhinol ar 17 Medi 2014.

- Mae Rhan 4 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014 ac adrannau 33A, 33B a 33C o Ddeddf Tai 1996 yn caniatáu i Weinidogion Cymru osod safonau gorfodol ar gyfer ansawdd tai ar gyfer tai newydd ac adferedig sy'n cael cymhorthdal drwy arian cyhoeddus a hefyd ar gyfer cartrefi cymdeithasol presennol.

## Cynigion ar gyfer newid - y camau nesaf

- Mae'r ymgynghoriad dwy ran hwn yn cynnig y dylai Cymdeithasau Tai ac awdurdodau lleol gydymffurfio â SATC a GAD lle y darperir cymhorthdal gan Lywodraeth Cymru.

- Fel sy'n digwydd ar hyn o bryd, ni fydd angen i gartrefi newydd sy'n cael eu hadeiladu gan Gymdeithasau Tai ac Awdurdodau Lleol heb gymhorthdal ddiwallu GAD ond gallant ddewis gwneud hyn. Mae'r ymgynghoriad hwn (Rhan B) yn gofyn am farn ynglŷn ag a ddylai bodloni GAD fod yn ofynnol wrth adeiladu tai cymdeithasol newydd *p'un a gânt eu hariannu ai peidio*, oherwydd y manteision ehangach a hirdymor i'r cyhoedd.

- Mae'r safonau wedi bod yn llwyddiannus o ran sicrhau bod pobl yn byw mewn tai ac amgylcheddau o ansawdd da a bod modd diwallu anghenion newidiol yn haws, fodd bynnag, adlewyrchiad o gyfeiriad y daith ydynt yn hytrach na phen y daith. Mae'r heriau megis yr angen cynyddol am dai, y cynnydd mewn biliau tanwydd a thlodi tanwydd, newid yn yr hinsawdd, newid mewn demograffeg, y pwysau ar y GIG a gofal cymdeithasol ac yn y blaen, yn golygu efallai y bydd angen eu hailwampio'n fwy sylweddol yn y tymor canolig.

## Ymatebion i'r Ymgynghoriad

Croesewir eich barn a darperir ffurflen ymateb yng nghefn y ddogfen hon. Dyddiad cau yr ymgynghoriad yw 12 Ebrill 2016.

**Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad**

Eich enw:

Sefydliad (lle bo'n berthnasol):

E-bost / rhif ffôn:

Eich cyfeiriad:

# Rhan A

## Y cynnig i gyflwyno SATC fel y safon orfodol ar gyfer tai cymdeithasol presennol yng Nghymru

**Cwestiwn A1**: Beth yw eich barn am y safonau a'r canllawiau arfaethedig a nodir yn Rhan A o'r ddogfen ymgynghori?

Rhowch eich sylwadau yma:

**Cwestiwn A2:** Beth yn eich barn chi yw manteision a/neu anfanteision defnyddio'r safon a'r canllawiau hyn?

Rhowch eich sylwadau yma:

**Cwestiwn A3:** Pa newidiadau (os o gwbl) sydd eu hangen yn eich barn chi? Esboniwch a rhowch dystiolaeth i gefnogi eich barn.

Rhowch eich sylwadau yma:

**Cwestiwn A4:** Byddem yn croesawu eich barn ar effaith bosibl y cynigion ar bobl â'r nodweddion gwarchodedig canlynol:-

- Anabledd
- Hil
- Rhywedd ac ailbennu rhywedd
- Oedran
- Crefydd a chred neu ddiffyg cred

- Cyfeiriadedd rhywiol
- Hawliau Dynol
- Plant a phobl ifanc

Rhowch eich sylwadau yma:

**Cwestiwn A5:** Byddem yn croesawu unrhyw sylwadau sydd gennych ar effaith bosibl y cynigion ar yr Iaith Gymraeg.

Rhowch eich sylwadau yma:

**Cwestiwn A6:** Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydyn ni wedi mynd i'r afael â nhw, defnyddiwch y lle hwn i wneud hynny:

Rhowch eich sylwadau yma:

Mae ymatebion i ymgyngoriadau yn debygol o gael eu cyhoeddi, ar y rhyngrwyd neu mewn adroddiad. Os byddai'n well gennych i'ch ymateb fod yn ddienw, ticiwch yma: ☐

## RHAN B

### Y cynnig i gyflwyno Gofynion Anasawdd Datblygu (GAD) fel y canllawiau gorfodol ar gyfer dylunio ac adeiladu tai newydd ac adferedig yng Nghymru os cânt eu hadeiladu drwy gymhorthdal gan Lywodraeth Cymru

**Cwestiwn B1:** Beth yw eich barn am y safonau a'r canllawiau arfaethedig a nodir yn Rhan B o'r ddogfen ymgynghori?

Rhowch eich sylwadau yma:

**Cwestiwn B2:** Beth yn eich barn chi yw manteision a/neu anfanteision defnyddio'r safon a'r canllawiau hyn?

Rhowch eich sylwadau yma:

**Cwestiwn B3:** Pa newidiadau (os o gwbl) sydd eu hangen yn eich barn chi? Esboniwch a rhowch dystiolaeth i gefnogi eich barn.

Rhowch eich sylwadau yma:

**Cwestiwn B4:** Ydych chi'n credu y dylai'r safon hon gael ei defnyddio wrth adeiladu tai cymdeithasol newydd p'un a gânt eu hariannu ai peidio oherwydd y manteision ehangach i'r cyhoedd? Esboniwch a rhowch dystiolaeth i gefnogi eich barn.

Rhowch eich sylwadau yma:

**Cwestiwn B5:** Byddem yn croesawu eich barn ar effaith bosibl y cynigion ar bobl â'r nodweddion gwarchodedig canlynol:-

- Anabledd
- Hil
- Rhywedd ac ailbennu rhywedd
- Oedran
- Crefydd a chred neu ddiffyg cred
- Cyfeiriadedd rhywiol
- Hawliau Dynol
- Plant a phobl ifanc

Rhowch eich sylwadau yma:

**Cwestiwn B6:** Byddem yn croesawu eich barn ar effaith bosibl y cynigion ar y Gymraeg.

Rhowch eich sylwadau yma:

**Cwestiwn B7:** Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydyn ni wedi mynd i'r afael â nhw, defnyddiwch y lle hwn i wneud hynny:

Rhowch eich sylwadau yma:

Mae ymatebion i ymgynghoriadau yn debygol o gael eu cyhoeddi, ar y rhyngrwyd neu mewn adroddiad. Os byddai'n well gennych i'ch ymateb fod yn ddienw, ticiwch yma: ☐